

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS LUN,
18.02.13 AM 7.15 YR HWYR YNG NGHANOLFAN, WAUNFAWR.**

Presennol – Cynghorwyr

Bryn Jones (Cadeirydd)
Edgar Owen
Llio Gwyn Jones
Cadi Jones
Sali Burns
Shoned Griffith (Clerc)

1 Croeso'r Cadeirydd - Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol.

2 Ymddiheuriadau - Y Cyng EG, Cyng GOW, Cyng TP, Cyng EW

3 Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

4. Seddi Gwag

Nodwyd fod un sedd wag dal ar y Cyngor Cymuned.

5. Gerddi Bach

Mynegwyd fod cyfarfod o'r Pwyllgor Gerddi Bach dydd Mawrth, 26 o Fawrth yn yr Antur. Ceir adroddiad pellach yn ein cyfarfod nesaf.

6. Derbyn Cofnodion 09.1.13

Y Cyng. CJ yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, y Cyng. EO yn eilio.

7. Materion yn codi o'r Cofnodion 09.01.2013

Materion Caeathro – Llwybr Llety i Ysbyty – Dal i aros caniatad un tirlfeddiannwr i osod y gamfa ar ei dir.

Materion Waunfawr – Llwybr Pant Gwyn i ffordd yr ysgol – wedi derbyn llythyr gan Cyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd gwaith yn cael ei wneud i'r llwybr flwyddyn ariannol nesaf.

(y ddau achos uchod i aros yn y cofnodion i'n hatgoffa)

8. Adroddiadau

a. Lloches Bws - Dim i'w adrodd

.

b. Y Fynwent –Y Cyng BJ wedi cyfarfod yn y Fynwent gyda G R Services ac wedi edrych ar y gwaith o drin y mwsog ar y llwybrau, cafwyd pris o £300.00 i wneud y gwaith – cytunwyd i hyn yn ein cyfarfod, hefyd cytunwyd fod G R Services i wagio'r gorlan pan yn y Fynwent yn torri y gwair am bris o oddeutu £10.00 ychwanegol.

Cytunwyd hefyd i G R Services gario'n 'mlaen a'r gytundeb i dorri gwair am yr un pris ar flwyddyn diwethaf.

c. Llwybrau Cyhoeddus – Dim i'w adrodd.

9. Materion Cynllunio

a. Ceisiadau newydd

Dyddiad Cofrestru	Bwriad	Lleoliad	Rhif Cais	Statws y Cais
28/01/2013	Adeiladu 19 o dai ynghyd a chreu mynedfa newydd a gwaith draenio	Llain o dir cyfagos Hen Gapel, Caeathro	C09A/0412/26/LL	Gweler sylwadau isod

Sylwadau y cais cynllunio

Cefnogi llythyr a sylwadau y Cyng EW.

Llifogydd – Pryderus iawn ynglyn a'r llifogydd ar y safle wedi'r tywydd garw yn ddiweddar. Ddim eisiau gweld sefyllfa fel Glasdir, Rhuthin yng Nghaeathro lle roedd y safle dan ddwr.

Carthffosiaeth – ydi'r system bresenol yn ddigonol ar gyfer datblygiad o'r maint yma?

Tai Fforddiadwy – oes elfen o'r datblygiad yma yn dai fforddiadwy?

Iaith – canran uchel o bobl i bentref bach gwledig, oes asesiad yn mynd i gael ei wneud ar ddylanwad ar yr iaith gymraeg?

Edrychiad y tai - fel pob safle arall gan Watkin Jones fydd hyn yn gweddu i'r pentref (pentref o fynglos/bythynod)?

Ydi'r tai cyfagos yn mynd i golli goleuni gyda ffens 1800 sy'n mynd i gael ei godi o flaen eu tai?

Hoffem dderbyn cadarnhad fod y trigolion cyfagos sy'n cael eu heffeithio gan y datblygiad wedi derbyn copi o'r cais cynllunio.

b. Ceisiadau wedi eu cymeradwyo gan Gyngor Gwynedd - Dim

10. Gohebiaeth

e-bost Cyngor Gwynedd – Cyfyngiadau aros arfaethedig – angen ymateb yn cadarnhau nad ydym wedi derbyn unrhyw gwynion ynglyn a'r lleoliad dan sylw.

e-bost gan Cyng EW – golau stryd Stad Ty Hen a ger Nant y Mynydd – angen cadarnhau nad yw'r Cyngor Cymuned yn fodlon ariannu'r gwaith.

PJL, Cyfreithwyr – Toiledau yn Waunfawr

Mantell Gwynedd – Cronfa Buddsoddi Cymunedol

AOW – Yswiriant ar gyfer staff

Plant a phobl ifanc Gwynedd – Asesiad Digonolrwydd Chwarae

e-bost Cyng EW – copi o ymateb i Gyngor Gwynedd ynglyn a chais cynllunio Caeathro

e-bost Cyng EW – Tarmacio ffrynt y Ganolfan – wedi anfon at Gyngor Gwynedd

e-bost Cyng TP – datgan diddordeb cais cynllunio Cae Glas, Waunfawr

e-bost Dewi Jones – gwahoddiad i gyfarfod safle Cae Chwarae, Caeathro

e-bost Cyngor Gwnedd – fainc Caeathro

e-bost Dylan Williams – biniau grit i Stad Bryn Golau, Waunfawr

e-bost Gillian Yorath – llwybr cerdded dalgylch Betws Garmon

Cyngor Gwynedd – Llwybr Cyhoeddus – Llwybr beicio Gwyrfa

Cyngor Iechyd Cymuned – Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr

Munud 'Ma Cyf – gwasanaeth gwaith ar dir ac eiddo

Cyngor Gwynedd – Cyngor Cymuned Waunfawr

Cyngor Gwynedd – Hen ffordd o sgwar Caeathro a Bontnewydd

PJL, Cyfreithwyr – Toiledau yn Waunfawr

Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro – llythyr diolch am y rhodd

Cyngor Gwynedd – Cynnal a Chadw Hawliau Tramwy Cyhoeddus

e-bost Cyng TP – materion ynglyn a'r cais cynllunio, Caeathro a'r drawsffordd Groeslon, Waunfawr – angen sylw i wyneb y ffordd.

11. Materion Ariannol

11.1 Arian wedi ei dalu allan

Ganolfan Waunfawr	£1,000
Cae Chwarae Caeathro	£1,000
Cyflog Clerc Ionawr	£260.00
Eglwys y Waun	£10.00
James Properties	£70.00

11.2 Arian a dderbyniwyd

11.3 Anfonebau i'w talu

Cyflog Clerc Chwefror	£260.00
Eglwys y Waun	£10.00
Cyflog Clerc Mawrth	£260.00

12. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf

3 Ebrill, 2013 yng Nghanolfan, Waunfawr.

13. Materion Aelodau.

Y Cyng EO – Dim.

Y Cyng LLGJ – Dim ond wedi cytuno i gymryd goriad hysbysfwrdd Caeathro er mwyn newid y newyddion yn rheolaidd.

Y Cyng CJ – Bin gyferbyn a Gerddi Bach wedi malu, angen bin newydd
Beth yw polisi Cyngor Gwynedd – gritio iard ysgolion?

Y Cyng SB –Goriad i'r hysbysfwrdd yn Waun – Sali wedi cytuno i gymryd cyfrifoldeb o'r goriad

Y Cyng BJ - Dim